

**Ysbyty Annibynnol Coed Du Hall
Nantaly Road
Rhydymwyn
Ger Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CF7 5HA**

Adroddiad 2010-2011

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Ffordd Fan
CAERFFILI
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850
Ffacs: 029 2092 8877

www.hiw.org.uk



ISBN 978 0 7504 6296 9

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2011

WG 12618

Dyddiad yr Arolygiad:	Rheolwr Arolygu:
16 Tachwedd 2010	Mr John Powell

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru fod wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). AGIC sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru sydd, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi'u dynodi fel yr awdurdod cofrestru.

I gofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos cydymffurfiad â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae AGIC yn profi cydymffurfiad darparwyr trwy asesu pob asiantaeth a sefydliad cofrestredig yn erbyn cyfres o '*Safonau Gofynnol Cenedlaethol*,' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau iechyd annibynnol. Gellir gweld mwy o wybodaeth ynglŷn â'r safonau a'r rheoliadau ar ein gwefan:

www.hiw.org.uk

Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad hwn yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser.

Cefndir a'r Prif Ganfyddiadau

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd o Ysbyty Coed Du Hall ar 16 Tachwedd 2010 gan Reolwr Arolygu, un adolygwr gofal iechyd annibynnol ac un adolygwr y Ddeddf Iechyd Meddwl. Cofrestrwyd yr ysbyty am y tro cyntaf ym mis Awst 1994 ac ar hyn o bryd mae wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth ar gyfer 22 o gleifion sy'n 18 mlwydd oed a hŷn a chanddynt salwch meddwl anorganaidd neu anableddau dysgu, gan gynnwys y rhai hynny y gellid eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Roedd y llety'n cael ei ddarparu mewn tair uned ar wahân ond wedi eu rhyng-gysylltu:

- Roedd Ash yn darparu gwasanaeth asesu a thriniaeth ar gyfer saith o gleifion benywaidd.
- Roedd Beech yn darparu gwasanaeth asesu a thriniaeth ar gyfer pump o gleifion gwrywaidd.
- Roedd Cedar yn darparu gwasanaeth adsefydlu ar gyfer deg o ddynton a menywod.

Mae Coed Du Hall wedi ei leoli ar gyrion pentref Rhydymwyn, ar y A541 rhwng Yr Wyddgrug a Llanelwy yng Ngogledd Cymru. Mae'r ysbyty wedi ei leoli mewn man gwledig ar safle hen ysbyty'r GIG. Mae gwasanaeth bws lleol yn mynd i ben y ffordd ac mae digon o gludiant ar gael i gleifion i'w galluogi i fynd i'r gymuned leol.

Yn rhan o'r broses arolygu, cyflwynodd y darparwr cofrestredig ffurflen hunanasesu wedi ei llenwi ac ystod eang o ddogfennau ategol i ddangos sut y maent yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar ddadansoddi ystod o ddogfennau, gan gynnwys archwilio cofnodion y cleifion a thrafodaeth gyda'r rheolwr, y dirprwy reolwr ac amrywiaeth o staff a gyflogir yn yr ysbyty. Cyfwelwyd nifer o gleifion hefyd ac mae'r adborth a gafwyd gan y cleifion a'r staff wedi ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn.

O ran prif ganfyddiadau'r arolygiad, roedd y darparwr cofrestredig wedi sefydlu'r canlynol:

- Datganiad o ddiben a chanllaw defnyddwyr gwasanaeth cynhwysfawr. Roedd y cleifion yn cael llawlyfr defnyddwyr gwasanaeth hefyd.
- System o ddogfennau gofal a oedd yn cynnwys hanes y claf, cofnodion y Dull Rhaglen Ofal a chynlluniau gofal unigol a oedd yn cael eu gwerthuso'n fisol. Roedd cynlluniau rheoli risg wedi eu sefydlu hefyd, ond nid oeddent yn cael eu hadolygu fel mater o drefn unwaith bob tri mis o leiaf. Hefyd, roedd ystafell wely un claf a oedd mewn perygl o ddianc, yn agos i fynedfa nad oedd wedi ei chysylltu â system larwm i rybuddio'r staff pe byddai'r drws ar agor. Gallai hyn fod yn berygl arbennig yn ystod y nos. Nid oedd cynllun gofal ar gael ar

gyfer claf a oedd yn absennol dan adran 17. Nid oedd nodiadau'r cleifion wedi eu cyfuno mewn un cofnod amlddisgyblaethol ac roedd adrannau ar wahân ar gyfer y clinigwr cyfrifol, y therapydd galwedigaethol a'r seicolegydd i gofnodi gwybodaeth. Roedd diffyg tystiolaeth hefyd fod yr ysbyty'n ystyried safbwyntiau'r cleifion am eu gofal a'u triniaeth, gan gynnwys sicrhau bod y drefn feddyginiaeth a'r sgil effeithiau a'r risgiau hysbys yn cael eu cofnodi a'u hesbonio'n llawn i'r cleifion.

- Ystod eang o bolisiâu a gweithdrefnau gyda'r dyddiad y'u lluniwyd a'r dyddiad y bwriedir eu hadolygu wedi eu nodi arnynt, ond roedd rhai o'r polisiâu ymhell heibio i'w dyddiad adolygu. Nid oedd cofnod ychwaith bod y staff yn darllen y polisiâu a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w maes gwaith fel mater o drefn ac yn llofnodi datganiad i gadarnhau hynny. Nid oedd y polisi a'r weithdrefn ar gyfer sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y staff yn ymdrin â'r drefn ar gyfer trosglwyddo rhwng nyrsys ar adeg newid sifft.
- Roedd rhaglen hyfforddiant staff wedi ei sefydlu a oedd yn ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys: atal tân, codi a chario, cymorth cyntaf, parch, iechyd a diogelwch, hylendid bwyd ac Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA). Fodd bynnag, roedd nifer sylweddol o'r staff nad oeddent wedi dilyn hyfforddiant ynglŷn â Deddf Iechyd Meddwl 1983, amddiffyn plant, yr hyn sy'n cynrychioli cwyn a'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion.
- Roedd ystod o weithgareddau/therapiau yn cael eu cynnig gan gynnwys; coginio, cyllidebu, celf a chreffft, crochenwaith, bingo, tennis bwrdd, pŵl a nifer o weithgareddau hamdden gan gynnwys tripiâu i'r theatr, siopa yn Yr Wyddgrug a Wreccsam a gwyliau i Blackpool a Windermere. Roedd nifer o'r cleifion y siaradwyd â hwy yn fodlon ar yr amrywiaeth o weithgareddau a ddarperir yn y sefydliad.
- Roedd nifer o feysydd wedi bod yn destun archwiliad gan gynnwys; rheoli heintiau, cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, cwynion a'r fferyllfa. Fodd bynnag, nid oedd y rhaglenni archwilio'n cynnwys monitro gwaith rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol mewn timau iechyd meddwl, monitro cyfraniadau amlbroffesiynol at gofnodion clinigol, graddau ac ansawdd y cyswllt uniongyrchol rhwng y staff

a'r cleifion, y defnydd o wybodaeth gymharol ynglŷn â chanlyniadau clinigol a gwerthuso yn erbyn canfyddiadau gwaith ymchwil ac arferion wedi eu seilio ar dystiolaeth.

- Cychwynnwyd arolwg cleifion ym mis Hydref 2010 ac roedd dadansoddiad o'r canlyniadau ar gael.

Roedd tystiolaeth eglur fod y dull o reoli cyflyrau penodol cleifion yn ystyried canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol.

O ran canfyddiadau eraill yr arolygiad, roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag agwedd y grŵp staff a'r cymorth yr oeddynt yn ei dderbyn ganddynt. Roedd yr adborth hefyd yn dangos bod y cleifion yn teimlo'n saff ac yn ddiogel, a bod perthynas dda rhwng y cleifion a'r staff.

Roedd gwasanaeth eiriolaeth ar gael ac roedd eiriolwr yn ymweld â'r ysbyty yn aml. Roedd manylion y gwasanaeth eiriolaeth yn cael eu harddangos yn rhai o'r wardiau ond nid pob un. O ran cwynion, nid oedd y weithdrefn wedi ei harddangos yn ward Cedar.

Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael ynglŷn â hawliau cleifion; ond nid oedd unrhyw daflenni ar gael i gleifion ynglŷn â chyfrifoldebau, meddyginiaeth a therapïau.

Roedd y gwasanaeth arlwygo i gleifion yn darparu tri phryd bwyd y dydd. Roedd yn amlwg bod dewis ac amrywiaeth ar gael ac y darperir ar gyfer gofynion dietegol penodol. Gwelwyd bod brecwast yn cael ei weini tan 11:30am, cinio am 1:00pm a'r pryd bwyd gyda'r nos am 5:00pm. Roedd y ddau brif bryd bwyd yn cael eu gweini'n gymharol agos i'w gilydd a gallai hynny gyfyngu ar yr amser a oedd gan y cleifion i fynychu gweithgareddau hamdden a chymdeithasol allanol. Roedd ffrwythau a diodydd poeth ar gael ar gais ac roedd y sefydliad wedi llwyddo i gyflawni dyfarniad '*arian.*'

Roedd yr amgylchedd cyffredinol yn gyfforddus ac roedd llawer o eitemau personol yn ystafelloedd gwely unigol y cleifion. Fodd bynnag, roedd angen ailaddurno ac adnewyddu nifer o fannau yn unedau Ash a Beech. Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig lunio cynllun gweithredu ynglŷn â sut y bydd yn ymdrin â'r maes hwn. Yn ogystal â hyn, roedd lloriau a charpedi budron yn unedau Ash a Beech, roedd staeniau ar y byrddau a hen ddarnau o fwyd yn sownd ynddynt, ac roedd angen adnewyddu'r ystafelloedd ymolchi a'r tai bach. O ran rheoli heintiau, sylwodd yr Arolygwyr fod dillad a thywelion wedi eu defnyddio ar lawr yr ystafell ymolchi yn ward Ash a bod tywelion wedi eu pentyrru ar gaead y bin melyn. Roedd problem hefyd ynglŷn â'r drysau allanol gan nad oedd larwm arnynt, ac felly gallai'r cleifion adael yr adeilad ac ni fyddai'r staff o reidrwydd yn ymwybodol eu bod wedi gadael. Roedd system galw nyrs ar gael mewn rhai rhannau o'r ysbyty ond nid oedd yn ymestyn i'r lolfeydd a'r man gweithgareddau. Nid oedd unrhyw gyfleusterau ymweld a oedd yn addas i blant ar gael yn y sefydliad. Roedd yr ysbyty wedi ei leoli mewn gerddi hyfryd iawn, ond roedd llawer o fonion sigarét mewn rhai rhannau, megis y fynedfa gefn gyferbyn â'r *'Neuadd'*, ac roedd angen eu glanhau.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw yn y *'Neuadd.'* Roedd y man hwn yn llaith ac ychydig iawn o wres oedd ar gael. Mae cadw gwybodaeth am y cleifion yn y man hwn yn gwbl anfoddhaol a rhaid ei lleoli mewn man arall cyn i'r gwaith papur ddirywio i safon annerbyniol.

Roedd ffôn y cleifion wedi ei leoli yn y coridor ac nid oedd hynny'n rhoi digon o breifatrwydd ar gyfer galwadau ffôn.

Roedd diffyg gwybodaeth i'r staff ynglŷn â Deddf Iechyd Meddwl 1983 ac nid oedd copïau o'r wybodaeth ganlynol ar gael yn yr ysbyty:

- Deddf Iechyd Meddwl 1983.
- Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth a Chydsynio i Driniaeth) 1983.

- Deddf Iechyd Meddwl (Cleifion yn y Gymuned) 1995 – Canllawiau Deddf Iechyd Meddwl o Dan Oruchwyliaeth 1983, Memorandwm ar rannau 1 i V1, VIII ac X.

Hysbyswyd y Rheolwr Arolygu y cynhaliwyd yr ymarfer tân diwethaf yn gynnar yn ystod 2010, ond nid oedd cofnod ar gael o'r ymarfer hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi dilyn hyfforddiant ar atal tân, ond nid oedd rhai o'r staff a oedd newydd eu penodi wedi dilyn yr hyfforddiant hwn.

Hoffai'r Rheolwr Arolygu ddiolch i'r rheolwr, y dirprwy reolwr, y staff a'r cleifion am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad arolygu.

Llwyddiannau a Chydymffurfiad

Nodwyd tri gofyniad rheoliadol yn yr adroddiad arolygu blaenorol, derbyniwyd cynllun gweithredu a rhoddwyd sylw i'r holl ofynion rheoliadol.

O ran llwyddiannau, roedd penodi therapydd galwedigaethol wedi gwella'n sylweddol ystod y gweithgareddau therapiwtig, hamdden a chymdeithasol a oedd ar gael ar gyfer y grŵp cleifion.

Mathau o Gofrestriad

Caniateir y cofrestriad hwn yn unol â'r math o wasanaeth a ddarperir. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y math canlynol o wasanaeth:

Disgrifiad
Ysbyty annibynnol gyda gwelyau dros nos sy'n darparu triniaeth feddygol ar gyfer iechyd meddwl (gan gynnwys cleifion a gedwir yn gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983).

Amodau'r Cofrestriad

Mae'r cofrestriad hwn yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol. Archwilir pob amod ar gyfer cydymffuriad. Disgrifir y dyfarniad fel bod yn Cydymffurfio, Ddim yn Cydymffurfio neu Sicrwydd Annigonol.

Rhif yr Amod	Amod y Cofrestriad	Dyfarniad
1.	Ni chaiff cyfanswm nifer yr unigolion a letyir yn yr Ysbyty ar unrhyw un adeg fod yn fwy na dau ddeg dau (22).	Cydymffurfio

Asesiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal archwiliadau ar safleoedd er mwyn asesu safonau. Pe byddem yn canfod meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r safonau gofynnol neu lle nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau, neu nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddangos y cyflawnir y lefel ofynnol o berfformiad, rhoddir gwybod i'r unigolyn cofrestredig am hyn drwy gyfrwng yr adroddiad arolygu hwn. Gall fod achlysuron hefyd pan ganfyddir methiannau mwy difrifol neu sydd angen sylw di-oed, ac efallai bod yr unigolyn cofrestredig hefyd wedi'i hysbysu ynglŷn â'r canfyddiadau a'r camau sydd i'w cymryd trwy lythyr, ond bydd y materion hynny hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu hwn. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn penderfynu ar yr angen i adolygu'r sefydliad a pha mor aml y dylid gwneud hynny ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani ers cynnal yr arolygiad diwethaf. Cyn cynnal arolygiad, bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried y wybodaeth sydd ganddi am unigolyn cofrestredig. Gallai hyn gynnwys: hunanasesiad yn erbyn y safonau, canfyddiadau'r adroddiad arolygu blaenorol ac unrhyw gynllun gweithredu a gyflwynwyd, adroddiadau ynglŷn ag ymweliadau'r darparwr, y Datganiad o Ddiben ar gyfer y sefydliad neu'r asiantaeth, ac unrhyw gwynion neu wybodaeth sy'n peri pryder am yr unigolyn cofrestredig a'r gwasanaethau.

Wrth asesu pob safon, yr ydym yn defnyddio pedwar datganiad i nodi'r canlyniad:

Safon wedi ei bodloni	Dim diffygion: yn cyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad.
Safon bron wedi ei bodloni	Mân ddiffygion: dim diffygion mawr a'r lefelau gofynnol o berfformiad yn ymddangos yn gyraeddadwy heb orfod cymryd camau ychwanegol o bwys.
Safon heb ei bodloni	Diffygion difrifol: angen cymryd camau sylweddol i gyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad.
Safon heb ei harolygu	Mae hyn naill ai oherwydd nad oedd y safon yn berthnasol, neu oherwydd na nodwyd unrhyw risg yn dilyn asesiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y sefydliad neu'r asiantaeth neu am y sefydliad neu'r asiantaeth, ac felly penderfynwyd nad oedd angen archwilio'r safon ymhellach yn ystod yr arolygiad hwn.

Asesiadau a Gofynion

Mae'r asesiadau wedi eu rhoi mewn grwpiau dan y penawdau canlynol, a cheir cyfeirnod ar gyfer pob safon:

- Safonau Craidd
- Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth

Talfyriadau ar gyfer y Safonau:

C = Safonau craidd

A = Safonau aciwt

MH = Safonau iechyd meddwl

H = Safonau hosbis

MC = Safonau mamolaeth

TP = Safonau terfynu beichiogrwydd

P = Safonau technegau a thechnoleg rhagnodedig

PD = Safonau meddygon preifat

Os nad yw'r unigolyn cofrestredig wedi llwyr fodloni unrhyw un o'r safonau isod, yr ydym wedi nodi ein canfyddiadau a'r camau y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliad penodol ar ddiwedd yr adroddiad. Gall methu â chydymffurfio â rheoliad fod yn drosedd. Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r arolygydd yn ystod y digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser. Weithiau bydd gwasanaethau'n gwella ac weithiau byddant yn dirywio.

Safonau Craidd

Rhif	Pwnc y Safon	Asesiad
C1	Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth eglur a chywir am eu triniaeth.	Safon wedi ei bodloni
C2	Mae'r driniaeth a'r gofal a ddarperir yn rhoi'r claf yn gyntaf.	Safon bron wedi ei bodloni
C3	Mae'r triniaethau a roddir i gleifion yn unol â chanllawiau clinigol perthnasol.	Safon wedi ei bodloni
C4	Sicrheir cleifion bod ansawdd y driniaeth a'r gofal yn cael ei fonitro.	Safon bron wedi ei bodloni
C5	Ymdrinnir â gofal terfynol a marwolaeth cleifion yn briodol ac yn sensitif.	Safon heb ei harolygu
C6	Mae'r sefydliad yn cael barn cleifion ac yn defnyddio'r wybodaeth wrth ddarparu triniaeth a gofal, ac ar gyfer darpar gleifion.	Safon wedi ei bodloni
C7	Mae polisïau a gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cynorthwyo i sicrhau ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau.	Safon bron wedi ei bodloni
C8	Sicrheir cleifion bod y sefydliad neu'r asiantaeth yn cael ei redeg/rhedeg gan sefydliad/unigolyn addas a bod llinell eglur o atebolrwydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau.	Safon wedi ei bodloni
C9	Mae cleifion yn derbyn gofal gan staff sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.	Safon wedi ei bodloni
C10	Mae cleifion yn derbyn gofal gan nyrsys sydd wedi eu cofrestru'n briodol sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol i ddarparu gofal i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol.	Safon wedi ei bodloni
C11	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.	Safon heb ei harolygu
C12	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol.	Safon heb ei harolygu
C13	Nid yw'r cleifion na phersonél wedi eu heintio â firysau a gludir yn y gwaed.	Safon wedi ei bodloni
C14	Caiff plant sy'n derbyn triniaeth eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon heb ei harolygu
C15	Caiff oedolion sy'n derbyn gofal eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon wedi ei bodloni
C16	Mae proses gwyno effeithiol ar gael i gleifion.	Safon bron wedi ei bodloni
C17	Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â sut i wneud cwyn.	Safon bron wedi ei bodloni
C18	Mae'n ddyletswydd ar staff a phersonél i fynegi pryderon ynglŷn ag arfer amheus neu wael.	Safon wedi ei bodloni

Rhif	Pwnc y Safon	Asesiad
C19	Mae cleifion yn derbyn triniaeth mewn safle sy'n ddiogel ac yn briodol ar gyfer y driniaeth honno. Darperir amgylchedd addas i blant a dderbynnir neu sy'n mynychu'r safle i gael triniaeth.	Safon bron wedi ei bodloni
C20	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ddefnyddio offer a chyflenwadau sy'n ddiogel ac mewn cyflwr da.	Safon wedi ei bodloni
C21	Mae cleifion yn derbyn gwasanaethau arlwyio priodol.	Safon wedi ei bodloni
C22	Sicrheir cleifion, staff ac unrhyw un sy'n dod i ymweld â'r safle cofrestredig y caiff yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r sefydliad, y triniaethau a'r gwasanaethau eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol.	Safon wedi ei bodloni
C23	Mae'r camau iechyd a diogelwch priodol wedi eu sefydlu.	Safon heb ei harolygu
C24	Mae camau wedi eu sefydlu i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli a'u trin yn ddiogel.	Safon heb ei harolygu
C25	Caiff meddyginiaethau, rhwymau a nwyon meddygol eu trin mewn modd saff a diogel.	Safon heb ei harolygu
C26	Caiff cyffuriau rheoledig eu cadw, eu rhoi a'u dinistrio yn briodol.	Safon heb ei harolygu
C27	Mae'r risg i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal haint a gafwyd yn yr ysbyty yn cael ei lleihau cymaint â phosibl.	Safon bron wedi ei bodloni
C28	Ni roddir triniaeth i gleifion gan ddefnyddio dyfeisiau meddygol halogedig.	Safon wedi ei bodloni
C29	Caiff cleifion eu dadebru'n briodol ac yn effeithiol.	Safon wedi ei bodloni
C30	Mae contractau'n sicrhau bod cleifion yn derbyn nwyddau a gwasanaethau o ansawdd priodol.	Safon wedi ei bodloni
C31	Caiff cofnodion eu creu, eu cynnal a'u storio i safonau sy'n sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol a rheoliadol ac argymhellion arfer proffesiynol.	Safon bron wedi ei bodloni
C32	Sicrheir cleifion y cwblheir cofnodion iechyd yn briodol.	Safon wedi ei bodloni
C33	Rhoddir sicrwydd i gleifion y rheolir yr holl wybodaeth o fewn y corff rheoledig er mwyn sicrhau cyfrinachedd cleifion.	Safon wedi ei bodloni
C34	Caiff unrhyw waith ymchwil a gynhelir yn y sefydliad / asiantaeth ei gynnal gyda chaniatâd priodol y cleifion perthnasol, yn unol â chanllawiau cyhoeddedig ynglŷn â chynnal prosiectau ymchwil.	Safon heb ei harolygu

Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth – mae'r rhain yn benodol i'r math o sefydliad a archwiliwyd

Rhif	Safonau Ysbytai Iechyd Meddwl	Asesiad
M1	Gweithio yn unol â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl.	Safon wedi ei bodloni
M2	Cyfathrebu rhwng aelodau staff.	Safon bron wedi ei bodloni
M3	Cyfrinachedd cleifion.	Safon wedi ei bodloni
M4	Archwiliad clinigol.	Safon bron wedi ei bodloni
M5	Niferoedd staff a chymysgedd sgiliau.	Safon bron wedi ei bodloni
M6	Hyfforddiant staff.	Safon wedi ei bodloni
M7	Asesu a rheoli risgiau.	Safon bron wedi ei bodloni
M8	Atal hunanladdiad.	Safon bron wedi ei bodloni
M9	Gweithdrefnau dadebru.	Safon wedi ei bodloni
M10	Cyfrifoldeb am wasanaethau fferyllol.	Safon heb ei harolygu
M11	Y Dull Rhaglen Ofal / rheoli gofal.	Safon wedi ei bodloni
M12	Derbyn ac asesu.	Safon wedi ei bodloni
M13	Y Dull Rhaglen Ofal: cynllunio ac adolygu gofal.	Safon wedi ei bodloni
M14	Gwybodaeth i gleifion am eu triniaeth.	Safon heb ei bodloni
M15	Cleifion ag anableddau datblygiadol.	Safon wedi ei bodloni
M16	Therapi Electrogynhyfol (ECT).	Safon heb ei harolygu
M17	Rhoi meddyginiaeth.	Safon heb ei harolygu
M18	Hunanfeddyginiaethu.	Safon wedi ei bodloni
M19	Triniaeth ar gyfer dibyniaeth.	Safon wedi ei bodloni
M20	Trosglwyddo cleifion.	Safon wedi ei bodloni
M21	Rhyddhau cleifion.	Safon wedi ei bodloni

M22	Cofnodion cleifion.	Safon bron wedi ei bodloni
M23	Grymuso.	Safon bron wedi ei bodloni
M24	Trefniadau ar gyfer ymweld.	Safon wedi ei bodloni
M25	Gweithio gyda gofawyr ac aelodau o'r teulu.	Safon bron wedi ei bodloni
M26	Arferion gwrthwahanïaethol.	Safon wedi ei bodloni
M27	Ansawdd bywyd cleifion.	Safon bron wedi ei bodloni
M28	Arian cleifion.	Safon heb ei harolygu
M29	Cyfyngiadau a diogelwch ar gyfer cleifion.	Safon wedi ei bodloni
M30	Lefelau arsylwi.	Safon heb ei harolygu
M31	Rheoli ymddygiad cythryblus.	Safon wedi ei bodloni
M32	Rheoli digwyddiadau difrifol/anffafriol.	Safon wedi ei bodloni
M33	Marwolaeth annisgwyl claf.	Safon heb ei harolygu
M34	Cleifion sy'n dianc.	Safon wedi ei bodloni
M35	Ataliad cleifion ac atal yn gorfforol.	Safon wedi ei bodloni
M41	Sefydliadau lle y darperir triniaeth i unigolion sy'n agored i gael eu cadw'n gaeth dan orchymyn – gwybodaeth i'r staff.	Safon bron wedi ei bodloni
M42	Hawliau cleifion dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Safon wedi ei bodloni
M43	Neilltuo cleifion.	Safon heb ei harolygu
M44	Absenoldeb dan Adran 17.	Safon bron wedi ei bodloni
M45	Absenoldeb heb ganiatâd dan Adran 18.	Safon wedi ei bodloni
M46	Rhyddhau cleifion a gedwir yn gaeth.	Safon wedi ei bodloni
M47	Hyfforddiant staff ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.	Safon bron wedi ei bodloni

Atodlenni Gwybodaeth

Mae'r atodlenni gwybodaeth yn nodi manylion y wybodaeth y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig ei darparu, ei chadw neu ei chofnodi mewn cofnodion penodol.

Atodlen	Manylion	Asesiad
1	Gwybodaeth i'w chynnwys yn y Datganiad o Ddiben.	Cydymffurfio
2	Gwybodaeth ofynnol yn ymwneud ag unigolion sy'n dymuno rhedeg, rheoli neu weithio mewn sefydliad.	Cydymffurfio
3 (Rhan I)	Y cyfnod gofynnol ar gyfer cadw cofnodion meddygol.	Cydymffurfio
3 (Rhan II)	Cofnodion y mae'n rhaid eu cadw i'w harchwilio.	Cydymffurfio
4 (Rhan I)	Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi ynglŷn â chleifion sy'n derbyn gwasanaethau obstetreg.	Amherthnasol
4 (Rhan II)	Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi am blentyn a anwyd mewn ysbyty annibynnol.	Amherthnasol

Gofynion

Mae'r gofynion isod yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 a ganfuwyd o ganlyniad i asesu'r safonau a nodir yn y golofn ar y chwith, a gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani. Cyfrifoldeb yr '*unigolyn cofrestredig*' yw'r gofynion, a chaiff yr unigolyn hwn fod naill ai'r darparwr cofrestredig neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig ddarparu '*cynllun gweithredu*' yn cadarnhau sut y mae'n bwriadu cyflawni'r camau gofynnol, a bydd yr Arolygiaeth, os oes angen, yn cymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r rheoliad a nodir.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C2 ac M14	15 (1)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Roedd diffyg tystiolaeth fod safbwyntiau'r cleifion ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth yn cael eu hystyried, gan gynnwys sicrhau bod y drefn feddyginiaeth a'r sgil effeithiau a'r risgiau hysbys yn cael eu cofnodi a'u hesbonio'n llawn i'r cleifion</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod dogfennau'n dangos yn eglur bod safbwyntiau'r cleifion ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth wedi eu hystyried.</p>	O fewn 28 diwrnod o ddyddiad yr adroddiad hwn.
C4 ac M4	16 (1)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Nid oedd y rhaglenni archwilio'n cynnwys; monitro gwaith rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol mewn timau iechyd meddwl, monitro cyfraniadau ambroffesiynol at gofnodion clinigol, graddau ac ansawdd y cyswllt uniongyrchol rhwng y staff a'r cleifion, y defnydd o wybodaeth gymharol ynglŷn â chanlyniadau clinigol a gwerthuso yn erbyn canfyddiadau gwaith ymchwil ac arferion wedi eu seilio ar dystiolaeth.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y rhaglenni archwilio'n cynnwys; monitro gwaith rhwng gwahanol weithwyr proffesiynol mewn timau iechyd meddwl, monitro cyfraniadau ambroffesiynol at gofnodion clinigol, graddau ac ansawdd y cyswllt uniongyrchol rhwng y staff a'r cleifion, y defnydd o wybodaeth gymharol a gwerthuso yn erbyn canfyddiadau gwaith ymchwil ac arferion wedi eu seilio ar dystiolaeth.</p>	O fewn tri mis o dderbyn yr adroddiad hwn.
C7 ac M25	8 (3) (c)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Roedd nifer o'r polisïau a'r gweithdrefnau nad oeddent wedi eu hadolygu o fewn yr amserlen ofynnol ac roedd angen eu diweddarau.</p>	O fewn tri mis o ddyddiad yr adroddiad hwn.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		<p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith bob tair blynedd a, phan fo'n briodol, paratoi a gweithredu polisiau a gweithdrefnau diwygiedig.</p>	
C16, M5 ac M47	17 (2) (a)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Roedd nifer sylweddol o'r staff nad oeddent wedi dilyn hyfforddiant ynglŷn â Deddf Iechyd Meddwl 1983, amddiffyn plant, yr hyn sy'n cynrychioli cwyn a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ynglŷn â Deddf Iechyd Meddwl 1983, amddiffyn plant, yr hyn sy'n cynrychioli cwyn a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.</p>	O fewn 28 diwrnod o dderbyn yr adroddiad hwn.
C19	24 (4) (c) ac (ch)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Nid oedd aelodau staff a oedd newydd eu penodi wedi dilyn hyfforddiant diweddar ar atal tân ac nid oedd unrhyw gofnod ar gael o gynnal ymarfer tân yn ddiweddar.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn dilyn hyfforddiant priodol ar atal tân ac yn cymryd rhan mewn ymarfer tân yn fuan. Rhaid cadw cofnod o'r ymarferion hyn.</p>	O fewn 28 diwrnod o dderbyn yr adroddiad hwn.
C22, M7 ac M8	15 (1) 24 (2) (d)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Roedd cynlluniau rheoli risg wedi eu sefydlu, ond nid oeddent yn cael eu hadolygu fel mater o drefn unwaith bob tri mis o leiaf. Hefyd, roedd ystafell wely un claf, a oedd mewn perygl o ddianc, wedi ei lleoli'n agos i fynedfa nad oedd wedi ei chysylltu â system larwm i rybuddio'r staff pe byddai'r drws ar agor. Gallai hyn fod yn berygl arbennig yn ystod y nos.</p>	O fewn 28 diwrnod o dderbyn yr adroddiad hwn.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		<p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y cynlluniau rheoli risg yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith bob tri mis. Hefyd, rhaid sicrhau bod system larwm briodol wedi ei gosod ar bob mynedfa er mwyn rhybuddio'r staff pe byddai'r drws yn cael ei agor. Gallai hyn fod yn berygl arbennig yn ystod y nos.</p>	
C22	24 (2) (b)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Roedd system galw nyrs ar gael mewn rhai rhannau o'r ysbyty ond nid oedd yn ymestyn i'r lolfeydd a'r man gweithgareddau.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod system galw nyrs yn cael ei gosod ym mhob man lle y mae'r cleifion yn derbyn gofal.</p>	Rhaid cyflwyno cynllun gweithredu ynglŷn â sut y bwriedir ymdrin â'r maes hwn o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr adroddiad hwn.
C27	14 (6)	<p>Canfyddiadau</p> <p>O ran rheoli heintiau, sylwodd yr arolygwyr fod dillad a thywelion wedi eu defnyddio ar y llawr yn yr ystafell ymolchi yn ward Ash a bod tywelion wedi eu pentyrru ar gaead y bin melyn.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu er mwyn lleihau'r perygl o heintiau cymaint â phosibl.</p>	Ar unwaith ac yn barhaus
C31	8 (1) (dd) 20 (1) (b)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw yn y 'Neuadd'. Roedd y man hwn yn llaith ac ychydig iawn o wres oedd ar gael. Mae cadw gwybodaeth am y cleifion yn y man hwn yn gwbl anfoddfaol a rhaid ei symud cyn i'r gwaith papur ddirywio i safon annerbyniol.</p>	Ar unwaith ac yn barhaus

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		<p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw mewn amgylchedd priodol er mwyn sicrhau y gellir eu cadw am y cyfnod gofynnol.</p>	
M44	15 (1)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Nid oedd cynllun gofal ar gael ar gyfer claf a oedd yn absennol dan Adran 17.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal ar gael ar gyfer pob claf sy'n absennol dan Adran 17.</p>	Ar unwaith ac yn barhaus
	24 (2) (b)	<p>Canfyddiadau</p> <p>Nid oedd man ymweld addas i blant ar gael yn y sefydliad.</p> <p>Camau Gofynnol</p> <p>Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig ddarparu man ymweld addas i blant yn y sefydliad.</p>	Rhaid llunio cynllun gweithredu ynglŷn â sut y bwriedir ymdrin â'r maes hwn a'i gyflwyno i AGIC o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr adroddiad hwn.

Argymhellion

Gall argymhellion fod yn berthnasol i agweddau ar y safonau neu ganllawiau cenedlaethol. Fe'u gwneir er mwyn i'r unigolion cofrestredig eu hystyried ond ni chânt eu gorfodi yn gyffredinol.

Safon	Argymhelliad
C7	Dylai'r holl staff ddarllen y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w maes gwaith a llofnodi datganiad i gadarnhau eu bod wedi gwneud hynny.
C17	Dylid arddangos y weithdrefn gwyno ym mhob ward yn yr ysbyty.
M2	Dylai'r polisi a'r weithdrefn sy'n sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y staff ymdrin â throsglwyddo rhwng nyrsys ar adeg newid sifft.

M22	Dylai nodiadau'r cleifion gael eu cyfuno mewn un cofnod amlddisgyblaethol.
M23	Dylid llunio taflenni gwybodaeth i gleifion ynglŷn â chyfrifoldebau, meddyginiaeth a therapiau.
M23	Dylid arddangos manylion y gwasanaeth eiriolaeth ym mhob ward yn yr ysbyty.
M27	Dylid sicrhau y gellir cynnal preifatrwydd wrth ddefnyddio'r ffôn talu cyhoeddus.
M41	Dylai copïau o'r dogfennau canlynol fod ar gael ym mhob un o'r manau clinigol: <ul style="list-style-type: none"> • Deddf Iechyd Meddwl 1983. • Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth a Chydysynio i Driniaeth) 1983. • Deddf Iechyd Meddwl (Cleifion yn y Gymuned) 1995 – Canllawiau Deddf Iechyd Meddwl o Dan Oruchwyliaeth 1983, Memorandwm ar rannau 1 i V1, VIII ac X.

Diben bodolaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw hybu gwelliant mewn iechyd a gofal iechyd. Mae gennym ddyletswydd statudol i asesu perfformiad sefydliadau gofal iechyd ar gyfer y GIG, a chydgysylltu adolygiadau gofal iechyd gan eraill. Wrth wneud hyn, ein nod yw lleihau'r baich rheoliadol ar sefydliadau gofal iechyd a chydweddu asesiadau gofal iechyd a ddarperir gan y GIG ag asesiadau'r sector annibynnol (preifat a gwirfoddol).

Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod nad yw ar gyfer adwerthiant masnachol. Dim ond yn ei gyfanrwydd y ceir atgynhyrchu'r adroddiad hwn. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r caniatâd hwn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir, ac ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn modd niweidiol na chyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod mai © 2009 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r deunydd, gan nodi teitl y ddogfen. Dylai ceisiadau ar gyfer atgynhyrchu fod yn ysgrifenedig a dylid eu hanfon at: Y Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Tŷ Bevan, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3ED